o dudalen 18

henwi'n unigol. Bu Richard Morgan yn gynhyrchiol yn nechrau'r ganrif, T.G. Walker yn y pumdegau ac E.V. Breeze Jones wedi hynny a hyd heddiw.

* * *

MAE LLYFRAU ar amaethyddiaeth wyddonol yn brin ond yn dda. Yng Nghyfres y Brifysgol a'r Werin ceir *Magu a Phorthi Anifeiliaid* (1932) gan J. Jones Griffith, *Y Tir a'i Gynnyrch* (1931) a *Hafodydd Brithion* (1947) gan R. Alun Roberts.

Ac onid R. Alun Roberts oedd brenin y llenorion gwyddonol oll? Dyma ŵr oedd yn wyddonydd, yn athronydd ac yn ôl Saunders Lewis, yn feistr o awdur gyda gweledigaeth bardd ac yn un o'n llenorion mwyaf ym maes rhyddiaith.

Mae'n resyn o beth na chyhoeddodd yr Athro fwy o gyfrolau. Eto i gyd, ymddangosodd llawer o erthyglau ac ysgrifau ganddo mewn cylchgronau ac maen nhw bellach ym meddiant Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor. Cymwynas â'r genedl fyddai casglu'r rhain ynghyd i'w cyhoeddi mewn cyfrol.

Hefyd yng Nghyfres y Werin mae *Amaethyddiaeth* gan Moses Gruffydd ond rhaid i mi gydnabod na welais i erioed mohono — methais â chael copi yn y llyfrgelloedd. Mae'n resyn o beth fod silffoedd ein llyfrgelloedd mor anghyflawn. Dichon mai'r rheswm yw cyndynrwydd y cyhoeddwyr i ailgyhoeddi llyfrau ac yn wir i roi unrhyw sylw pellach iddyn nhw ar ôl cyfnod byr o gwmpas dyddiad eu cyhoeddi.

Yn 1984 cafwyd *Defaid* gan J.B. Owen yn ychwanegiad i'r llyfrgell amaethyddol. Ond prin iawn fu llyfrau eraill i oedolion yn ail hanner y ganrif. Yr unig rai y gwn i amdanyn nhw yw *I'r LLeuad a Thu Hwnt* (1964) gen i, *Y Fêl Ynys* (1973) gan Melfyn R. Williams, *Y Meicro* (1984) gan J. Philip Davies a *Bwyta i Fyw* (1987) eto gen i.

Ond fe gyhoeddwyd llu o lyfrau a gwerslyfrau ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oedran. Mae'n amlwg mai i'r maes yma yr aeth yr ynni a'r ymroddiad i gyd ac mae lle i ddiolch am hynny. Yng Nghatalogau'r Cyngor Llyfrau mae 30 o lyfrau bioleg, 3 cemeg, 3 ffiseg, 23 mathemateg, 3 cyfrifiaduraeth, 40 daearyddiaeth, 30 cyffredinol, 57 natur a thros 30 o lyfrynnau y Cyngor Ysgolion — rhai yn gyfieithiadau, eraill yn wreiddiol.

Mae amryw o'r rhain yn gwbl addas i oedolion. Rhaid nodi yn arbennig *Y Tri Chyfandir* ac *Elfennau Daearyddiaeth* gan G.O. Thomas, *Hedfan* (1971) gan Iwan Bryn Williams, *Serydda* (1982) gan Aneirin Evans, *Y Byd a'i Bethau* (1972) ac amryw gyfrolau eraill hynod ddarllenadwy gan Owain Owain a fu hefyd (fel Melfyn R. Williams a minnau yn ein tro) yn ohebydd gwyddonol *Y Cymro* am gyfnod. Mae Owain Wynn Davies yn ohebydd gwyddonol i'r *Faner* ar hyn o bryd a'i ysgrifau bob amser yn mynegi ei hoffter amlwg o lenyddiaeth.

* * *

A SÔN am gylchgronau, nid gwiw anghofio cyfraniad nodedig *Cynefin* (Byd Natur), *Cennad* (Y maes meddygol) a'r *Gwyddonydd*, o dan olygyddiaeth Glyn O. Phillips, sydd cystal ei safon ag unrhyw gyhoeddiad cyffelyb yn Saesneg. Pob clod i Wasg Prifysgol Cymru am barhau i gyhoeddi hwn ers 27 mlynedd er mai bach yw ei gylchrediad.

Mae'r Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol, a sefydlwyd yn 1971, yn cynnal cynhadledd bob blwyddyn ac yn cyhoeddi'r trafodion: *Y Creu, Ffisig a Fformiwla, Y Byd Ansicr Hwn, Canrif o Wyddoniaeth, Cyfrifiaduron yn y Cartref a'r Gymdeithas* — i enwi dim ond rhai o'r deg neu ragor o lyfrynnau sydd ar gael, i gyd yn werth eu darllen. Erbyn hyn mae'r Gymdeithas Wyddonol hefyd yn cynhyrchu taflen wyddonol, 'Atom', (golygydd Iolo ap Gwynn) i'w chynnwys yn y papurau bro o dro i dro.

Ymysg cofiannau o wyddonwyr mae *Gwyddonwyr Enwog* (1961) gan W.M. Rogers; *Gwyddonwyr o Gymru* gan O.E. Roberts; *Gwyddonwyr Enwog* (1985), Rhif 8 yn y gyfres *Enwogion y Byd* dan olygyddiaeth W.J. Jones; *Doctor Alun* (1977), cofiant Melfyn R. Williams i R. Alun Roberts; a *Darwin* (1981) gan y llenor o wyddonydd, R. Elwyn Hughes, yn y gyfres *Y Meddwl Modern*.

Llenor o feddyg oedd Glyn Penrhyn Jones efo'i ddwy gyfrol *Maes y Meddyg* a *Newyn a Haint yng Nghymru* (1962). Rhaid peidio ag anghofio meddygaeth — mae agweddau gwyddonol i honno. Yn 1939 cafwyd *Y Du a'r Gwyn yng Nghymru* (ymdriniaeth ar y ddarfodedigaeth) gan Henry Jones (Maes yr Haf); ac yn y pedwardegau, dwy gyfrol werthfawr *Iechyd yng Nghymru* ac *Ar Lwybr Serch* gan T. Trefor Jones.

Sylwais ar erthyglau ar seicoleg yn y cylchgrawn *Efrydiau Athronyddol* o dro i dro a chefais ar ddeall fod ambell lyfr i'w gael ar y pwnc er na welais i yr un fy hun.

* * *

MAE prinder storïau ffugwyddonol yn y Gymraeg. Enghreifftiau y gwn i amdanyn nhw yw *Dinas y Lloer* gan W.J. Jones, *Pe Symudai y Ddaear* gan Griffith Jones ac *Wythnos yng Nghymru Fydd* gan Islwyn Ffowc Elis.

Hefyd mae amryw o storïau plant i'w cael, yn enwedig yng nghylchgronau'r Urdd. Dichon fod cyfrolau eraill na wn i amdanyn nhw. (Os bu imi fethu llyfr o bwys yn y maes yma neu mewn unrhyw wyddor o wyddoniaeth, maddeuer imi.)

Mae angen mawr am storïau difyr o'r math yma ac nid yw'n anfri o gwbl ar yr awduron hyn i ddweud na chynhyrchwyd yn Gymraeg unrhyw beth nodedig iawn yn y maes, hynny hwyrach am na chafwyd hyd yma lenor o wyddonydd i fentro rhoi ei ddychymyg ar bapur yn ei famiaith.

Yn Saesneg, gwyddonwyr gan amlaf sy'n ysgrifennu nofelau ffug-wyddonol ac ar sail eu gwybodaeth drwyadl o wyddoniaeth, maen nhw'n allosod *(extrapolate)* i gyfeiriad y posibl (nid o anghenraid y tebygol); ac felly mae eu gwaith yn gredadwy, ni waeth pa mor wyllt eu dychymyg.

Nofelau a storïau byrion o'r math yma a geir gan Hoyle, Azimov, Bradbury a Clarke, i enwi dim ond rhai o'r meistri — nid fy mod i wedi darllen yn eang iawn yn y maes yma. Tecwyn Lloyd yw'r arbenigwr. Ond o hynny a ddarllenais i, ymddengys fod y cynnyrch yn rhannu'n dri dosbarth —

1. Y stori gonfensiynol ei chynllun ond yn defnyddio taclau gwyddoniaeth (Paladr *laser* yn lle gwn neu fwa a saeth).
2. Stori sy'n darogan y dyfodol a hwyrach yn rhybuddio (er enghraifft, *1984*).
3. Stori sy'n wirioneddol wreiddiol gyda seiliau gwyddonol cadarn ond yn llawn dychymyg. Dyma'r math o stori sy'n cynhyrfu ac yn aros efo rhywun.

Mae rhai nofelau yn gyfuniad o'r tri: un felly yw *Inter Ice Age 4* gan Kobo Abe, cyfieithiad o'r Siapanaeg. Ond 'does dim yn y Gymraeg o'r math gwreiddiol hwn. Yr achos, bid siŵr, yw fod y gyfundrefn addysg wedi ffrwyno dychymyg pob gwyddonydd o Gymro (ac mae llawer ohonyn nhw) i rigol dilenyddiaeth a di-Gymraeg trwy'r drefn o or-arbenigo sydd hefyd wedi cadw pawb arall rhag gwybod dim oll am wyddoniaeth.

* * *

MAE EFFAITH hyn ar ein diwylliant yn drychinebus. Onid Saunders Lewis ddywedodd fod yn rhaid i lenyddiaeth fyw ymwneud â syniadaeth wyddonol a thechnolegol yr oes neu lithro'n ôl i'r gorffennol? A thystiodd Waldo Williams yn ei feirniadaeth ar yr awdl yn y Bala fod y beirdd yn cadw'n bur ddieithr i'r mudiad mawr gwyddonol.

Rhaid deffro i'r angen am roi addysg gynhwysfawr i bawb fel bo gwyddoniaeth yn dod yn rhan naturiol o ddiwylliant Cymru — mor naturiol ag yr oedd i Bantycelyn. Hwyrach y daw pethau'n well trwy gynnyrch yr ysgolion Cymraeg.

Fe welir fod rhyw ychydig ar gael yn Gymraeg ym mhob gwyddor bron — digon i brofi'r posibiliadau ond dyna i gyd. Rhaid peidio â bodloni ar hyn os ydym am iaith fyw a diwylliant cyfoes. Nid dyfodol gwyddoniaeth sydd yn y fantol!

Mae'r gwyddonwyr sydd wedi mentro ysgrifennu yn Gymraeg wedi cyfrannu cymaint â neb at lusgo'r iaith i'r ugeinfed ganrif ond o'r holl awduron a nodais, ac eithrio Islwyn Ffowc Elis a W.J. Jones, ni cheir cyfeiriad at yr un ohonynt, ddim hyd yn oed at Yr Athro R. Alun Roberts, yn *Y Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*. Dyna fynegi diffyg parch y Cymry at wyddoniaeth!

# Mynydd y Gof

Gan

DAFYDD WYN WILIAM

NODAIS ambell beth diddorol am y gyfrol *Mynydd-y-gof* yn rhifynnau 38 a 40 o'r cylchgrawn hwn. Wele rai ffeithiau ychwanegol.

Yn ystod fy nhymor yn fyfyriwr ym Mangor arferwn seiadu ambell waith ar aelwyd y Parchedig R.G. Owen, Gweinidog Eglwys Annibynnol Pen-dref. Fel y nodais o'r blaen yr oedd gan y Gweinidog hwn gopi o *Mynydd-y-gof*. Yn ystod un o'r seiadau dywedodd wrthyf fod yr Athro R.T. Jenkins wedi mynd i siop Galloway ym Mangor Uchaf a chanfod nifer fechan o gopïau o'r gyfrol. Prynodd hwy yn rhad.

Rhoddodd un copi i'r Parchedig R.G. Owen a diau iddo gadw un copi ei hunan. Credaf iddo hefyd roi un copi yn Llyfrgell Coleg y Gogledd ac un arall i Bob Owen Croesor.

Nid oeddwn am ailadrodd yr hyn a ddywedodd y Parchedig R.G. Owen wrthyf am y gyfrol nes imi yn gyntaf gael rhagor o dystiolaeth. Cefais y dystiolaeth angenrheidiol gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones yn y nodyn isod:

> *Ddechrau'r pumdegau oedd hi, tua 1952 neu 1953. Roeddwn i yn swlffa yn siop Galloway ar dop allt Glanrafon — lle mae bwyty Bopa Lisa heddiw. Mae gen i gof am focs carbord ar lawr yno, minnau'n sbio ynddo a gweld copïau o Mynydd-y-gof. Ar y pryd wyddwn i ddim am hynodrwydd y llyfr. Roedd y cyfrolau mewn cyflwr perffaith. Mae gen i syniad fod yno ryw hanner dwsin o gopïau o'r llyfr yn y bocs.*

Rhoddais gyfrif am leoliad pedwar o'r copïau oedd yn y bocs. Gan bwy y mae'r ddau gopi arall?